



Ffurflen Gofrestru 22/23

Defnyddiwch inc du neu las tywyll yn unig i lenwi'r ffurflen hon. Rhaid anfon tâl, a thystiolaeth o hawl i ostyngiad neu lythyr gan y cyflogwr, gyda'r ffurflen hon. Ni dderbynnir ffurflenni anghyflawn. Gofalwch lenwi pob adran. Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Cyfenw		Enwau Cyntaf		Dyddiad Geni		Cyfenw ar eich pen-blwydd yn 16	
				/ /			
Adnabyddir fel (enw)		Dyddiad cyrraedd y DU gyntaf (os nad ydych yn hanu o'r DU/UE)				/ /	
		Os nad ydych yn hanu o'r DU/UE, a oes gennych hawl parhaol i aros/ddod i mewn?				Oes	Nac Oes
Rhyw	Gwryw	Benyw	Arall	Cenedl (fel ar eich pasbort)			
Domisil (y wlad yr ydych yn byw ynddi'n barhaol)			Hunaniaeth genedlaethol				

Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn	
Rhif Ffôn Symudol	
Ebst	
Rhif Yswiriant Gwladol	

Manylion cyflogaeth	Cyflogedig (ac eithrio hunangyflogedig)
Di-waith yn y tymor byr	Di-waith yn yr hir dymor
Hunangyflogedig	
Economaidd anweithgar (ac eithrio addysg a hyfforddiant llawn amser)	
Addysg a hyfforddiant llawn amser	
Arall (gan gynnwys addysg a hyfforddiant rhan-amser)	
Os ydych yn gyflogedig, sawl awr yr wythnos ydych chi'n eu gweithio fel arfer?	
Enw'r Cyflogwr	
Cod Post y Cyflogwr	

Pa ysgol wnaethoch chi ei mynychu ddiwethaf?		Blwyddyn gadael yr ysgol	
--	--	--------------------------	--

Cod y cwrs	Teitl y cwrs	Dyddiad dechrau	Cyfanswm ffioedd y cwrs
1.			
2.			
3.			

Ym mha iaith yr hoffech i ni gyfathrebu â chi	Cymraeg	Saesneg	
Siaradwr Cymraeg (nodwch)	Rhugl	Ddim yn rhugl	Ddim yn siarad Cymraeg
Y cymhwyster uchaf sydd gennych yn y Gymraeg (Nodwch)	Lefel 1 (TGAU D-G)	Ai cymhwyster Cymraeg iaith Gyntaf neu Gymraeg Ail iaith oedd hwn?	
Lefel Cyn-mynediad	Lefel 2 (TGAU A*-C)	Cyntaf	Ail
Lefel Mynediad	Lefel 3 neu uwch (Lefel A, AS)	Nid oes gennyf unrhyw gymhwyster yn y Gymraeg	

A oes gennych anabledd neu anhawster dysgu? Rhowch dic os teimlwrch fod hyn yn amharu ar eich gallu i ddysgu neu i ddefnyddio adnoddau cyffredinol.	Nam ar y golwg (21)
Dim anabledd (91)	Anhawster gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu (27)
Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (26)	Dyspracsia (34)
Dyscalcwlia (33)	Dyslecsia (32)
Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (24)	Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd (35)
Nam amlsynwyr (25)	

Tarddiad ethnig (nodwch)	Unrhyw Gefndir Gwyn arall	Pacistanaidd	Cymysg (Gwyn a Du Asiaidd)
Gwyn (Cymraeg/Saesneg/Albanaidd/Gwyddel o Ogledd Iwerddon/Prydeinig)	Roma	Bangladeshaid	Unrhyw gefndir cymysg arall
	Caribiaidd	Tsieineaidd	Cefndir ethnig arall
Gwyn (Gwyddelig)	Affricanaidd - African Cefndir Du, Du Cymreig, Du Prydeinig neu Garibiaidd	Cymysg (Gwyn a Du Caribiaidd)	Arabaidd
Gwyn (Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig)	Indiaidd	Cymysg (Gwyn a Du Affricanaidd)	

Dim ond dysgwyr sy'n talu ffioedd sydd i lenwi'r adran hon.

Manylion Ffioedd - Pwy sy'n gyfrifol am dalu eich ffioedd? (nodwch) Os yw'r rhan hon yn wag bydd y myfyriwr yn derbyn anfoneb.

Dim ffi	Noddwr/Cyflogwr
Chi eich Hun	Enw'r Noddwr/Cyflogwr
Arall (nodwch)	Cyfeiriad y Noddwr/Cyflogwr (gan gynnwys y cod post)
Datblygiad Staff	
Cod Datblygiad Staff	
	Rhif ffôn y Noddwr/Cyflogwr

Manylion cyswllt mewn argyfwng	Enw
Rhif ffôn	Rhif ffôn Symudol

Manylion Cyllid	Ffi Dysgu	£	Gwybodaeth Ychwanegol i'r Coleg
Llai gostyngiad o 50% ar y Ffi Dysgu (os ydych yn ei hawlio) Rhaid anfon tystiolaeth o'r hawl gyda'r ffurflen		(£)	Mae gan y Coleg ddyletswydd i ofalu am bob myfyriwr a phob aelod staff. O'r herwydd, rhaid i bob ymgeisydd ddatgan unrhyw ddedfrydau troseddol.
Y Math o Ostyngiad			
Ffi Arholiad (Dim gostyngiad ar gael)		£	Caiff yr holl wybodaeth ei thrin fel data sensitif yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) a Pholisi Cyfle Cyfartal y Coleg. Rhaid cael Gwiriad Manwl boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn cofrestru ar rai cyrsiau.
Cyfanswm y Ffi sy'n Daladwy		£	
Manylion Rhandaliadau: Yn talu mewn rhandaliadau* (*Dim ond os yw Cyfanswm y Ffi sy'n daladwy yn fwy na £100)	Ydw	Na	A oes gennych chi ddedfryd droseddol sydd heb ddod i ben (ac eithrio troseddau moduro)? Os OES, ysgrifennwch at Gyfarwyddwr Profiad y Dysgwyr, Grŵp Llandrillo Menai, i roi rhagor o wybodaeth.
Swm y blaendal a dalwyd		£	
Ffurflen archeb sefydlog wedi'i llenwi	Do	Na	Oes Nac oes

Rwyf wedi darllen a deall y datganiad sydd ar y tudalennau nesaf ac rwyf yn cytuno ag ef.

Llofnod y Dysgwr	Dyddiad	/ /	Nodwch y Tiwtor Personol (os yw'n wahanol)
Llofnod y Tiwtor	Enw'r Tiwtor		
Datganiad y Tiwtor - Mae'r dysgwr wedi'i gyfwrdd a'i gymeradwyo ar gyfer y cwrs/cyrsiau a nodir.			

Defnydd Swyddfa'n Unig - Dyddiad Derbyn	Rhif Dysgwr	Cyflym - Dyddiad	Llofnod Mewnbynwr
Llawn - Dyddiad	Llofnod Mewnbynwr	Sganiwyd - Dyddiad	Llofnod Mewnbynwr
			Stamp Cyllid

Datganiad:

Cytunaf i gydymffurfio â rheolau a pholisïau Grŵp Llandrillo Menai (yn cynnwys polisïau ar lôn-ladrad, bwlio ac aflonyddu, ffioedd, disgyblu, defnydd o TGCh a phresenoldeb), i weithredu'n unol â darpariaethau'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac i gydymffurfio â'r polisi dim ysmegu yn holl adeiladau Grŵp Llandrillo Menai. Cytunaf i dalu'r holl ffioedd wrth iddynt ddod yn ddyledus, ac i wybodaeth am fy nghynnydd, fy nghyflawniad a'm presenoldeb gael ei rhannu fel y bo'n briodol â'm Noddwr, Darparwr Hyfforddiant neu Gyflogwr pan fyddaf yn cael fy rhyddhau o'r gwaith i ddilyn y cwrs, ac â'm rhieni/gwarcheidwaid os wyf o dan 18 oed ar ddiwrnod cyntaf fy rhaglen ddysgu. Cadarnhaf fy mod yn dal yn gyfrifol am dalu'r ffi lawn os tynnaf yn ôl yn gynnar o gwrs lle bo ffi yn daladwy. Os na allaf dalu'r holl ffioedd a'r taliadau wrth iddynt ddod yn ddyledus, cytunaf i gymryd y cyfrifoldeb am yr holl gostau gweinyddu yr aiff Grŵp Llandrillo Menai iddynt wrth gasglu fy nyled. Os na all fy noddwr/cyflogwr dalu fy ffioedd fel y cytunwyd, byddaf yn gyfrifol am dalu'r ffioedd hyn wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae Grŵp Llandrillo Menai'n defnyddio'r wybodaeth ar y ffurflen hon i asesu anghenion dysgu myfyrwyr a bydd yn anfon peth o'r wybodaeth mae'n ei chadw amdanoch i Lywodraeth Cymru a defnyddwyr cydnabyddedig eraill a all gynnwys ymchwilwyr academaidd a chyrrff cyhoeddus a masnachol. Mae data personol o'r fath yn cael ei drin yn hollol gyfrinachol ac ni fydd yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti ac eithrio pan fydd hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith neu i gynllunio camau cefnogi. I gael copi llawn o hysbysiad preifatrwydd Grŵp Llandrillo Menai ewch i wefan y Grŵp www.gllm.ac.uk

Mae'r rhaglen ddysgu yr ydych ar fin cofrestru ar ei chyfer yn cael ei hariannu naill ai'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (LLC) neu'n rhannol drwy weithrediadau a gymeradwyir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) (drwy Lywodraeth Cymru).

Er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen hon, bydd yn rhaid i chi ddarparu data personol. Rydym yn dibynnu ar erthygl 6(1)(e) o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data fel sail gyfreithiol i brosesu eich data personol. Mae hyn yn caniatáu i ni fodloni ein dyletswyddau cyfreithiol a gweinyddu a monitro'r cyllid a ddarperir gennym. Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth categori arbennig, fel ethnigrwydd, bydd yn cael ei phrosesu gyda'ch cydsyniad chi. Ceir rhestr lawn o ddata categori arbennig yn Rhan Dau/Fersiwn lawn o'r hysbysiad preifatrwydd.

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch cais am gyllid.

Os caiff eich rhaglen ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, bydd eich darparwr dysgu yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ychwanegol megis pasbort, slip cyflog diweddar neu dystysgrif cymhwyster. Cedwir copi o'r dystiolaeth hon gan eich darparwr dysgu at ddibenion archwilio gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a bydd sampl o dystiolaeth dysgwyr ar draws darparwyr yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru.

I beth fydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon?

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data at ddibenion ariannu, cynllunio a datblygu polisi yn ogystal â monitro deilliannau dysgwyr (megis ennill cymwysterau, cynnydd dysgwyr a chyrchfannau).

Yn ychwanegol, bydd eich data yn cael eu defnyddio mewn ystadegau ac ymchwil swyddogol, gan gynnwys sut y mae iechyd ac amgylchiadau unigol yn cael effaith ar ddeilliannau addysgol dysgwyr yng Nghymru. Mae ein hadroddiadau ystadegau swyddogol yn rhoi darlun cyffredinol o ddysgwyr yng Nghymru, beth y maent yn ei astudio, eu canlyniadau a'u cyrchfannau ar ôl iddynt adael. Er enghraifft, maent yn cynnwys gwybodaeth am batrymau o ran rhyw ac oedran dysgwyr a'r cymwysterau, pynciau a'r lefelau y maent yn eu hastudio. Ni ellir adnabod dysgwyr unigol o'r cyhoeddiadau hyn.

Bydd sefydliadau ymchwil hefyd yn defnyddio data dysgwyr ôl-16 er mwyn gwerthuso rhaglenni a pholisïau addysg yng Nghymru. Fel rhan o'r gwaith gwerthuso, efallai y byddant yn cynnal arolygon dysgwyr dewisol, a fydd yn asesu effaith rhaglen ar y dysgwyr unigol yn ogystal â chyfrannu at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol; er enghraifft, sefydlu faint o dâl y mae prentisiaid yn ei gael, sydd yn ei dro yn cyfrannu at ddatblygu polisi ar isafswm cyflog cenedlaethol.

Er mwyn i Lywodraeth Cymru asesu'r effaith y mae eu rhaglenni yn ei chael ar grwpiau o ddysgwyr penodol, byddwn yn cysylltu'ch data gyda chofnodion addysgol eraill a gedwir gennym, megis y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Cronfa Ddata Arholiadau Cymru a'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch. Rydym yn defnyddio hyn i'n helpu i ddeall cynnydd a deilliannau dysgwyr yng Nghymru, er mwyn llywio ein hymchwil, mesurau perfformiad a chyhoeddiadau ystadegol. Efallai y byddwn yn rhannu hyn hefyd gydag ymchwilwyr a chyda'n partneriaid, yn cynnwys Estyn a Cymwysterau Cymru, er mwyn eu cynorthwyo i gynnal eu dadansoddiad nhw o'r data i lunio arolygiadau ac adolygiadau. Ni ellir adnabod dysgwyr unigol o'r data hyn yr ydym yn ei rannu â'n partneriaid.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data gallwch:

- weld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn ei gadw amdanoch chi
- ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro unrhyw wallau yn y data hwn
- gwrthwynebu unrhyw achos o brosesu'r data, am resymau'n ymwneud â'ch sefyllfa benodol chi (mewn rhai amgylchiadau)
- cyfyngu ar waith prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Am faint fydd Llywodraeth Cymru'n cadw'ch gwybodaeth?

Y Math o Ddata	Cyfnod Cadw'r Data	Defnyddio'r Data
Addysg Bellach a Dysgu Oedolion yn y Gymuned:	Bydd eich data'n cael ei ddileu ar ôl 10 mlynedd	Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddadansoddi'r ariannu a chreu adroddiadau dros gyfnod o amser. Gall yr adroddiadau hyn gael eu defnyddio i lywio penderfyniadau polisi neu i ragweld lle bydd angen arian yn y dyfodol.
Dysgu Seiliedig ar Waith	Bydd eich data'n cael ei ddileu 10 mlynedd ar ôl diwedd cyfnod y contract	Pan fo'r dysgu'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, bydd data'n cael ei gadw er mwyn ei wirio a'i archwilio. Yr Undeb Ewropeaidd sy'n penderfynu am faint y caiff y data ei gadw.
Cedwir eich data am gyfnod hirach at ddibenion ystadegol a dibenion ymchwil.		

Cysylltiadau

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw amdanoch a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech ddefnyddio eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

dataprotectionofficer@gov.wales

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)

<https://ico.org.uk/>

Hysbysu ynghylch newidiadau

Diweddarwyd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 1 Ebrill 2022 ac rydym yn ei adolygu'n gyson i sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn gywir. Byddwn wastad yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau i'r defnydd a wnawn o'ch data drwy'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn a'ch darparwr. Bydd pob achos o brosesu data gan Lywodraeth Cymru yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol ym maes diogelu data. Os hoffech beidio â chyflwyno eich data categori arbennig ar unrhyw adeg, dylech gysylltu â Grŵp Llandrillo Menai a fydd yn diweddarw'ch cofnod.

<https://llyw.cymru/cofnod-dysgu-gydol-oes-cymru-hysbysiad-preifatrwydd>

Bydd y wybodaeth a roddir gennych yn cael ei defnyddio hefyd gan y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu i ddyrannu i chi Rif Unigryw'r Dysgw'r a rhannu gwybodaeth am eich dysgu â sefydliadau sy'n gysylltiedig â'ch addysg a'ch hyfforddiant. Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut mae'ch data'n cael ei brosesu a'i rannu ar <https://www.gov.uk/education/learning-records-service-lrs>

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi darllen y wybodaeth ar y ddogfen ac yn cytuno bod yr holl ddata'n gywir. Rwyf yn cytuno'n llwyr â'r Cynllun Dysgu Unigol ac yn cadarnhau fy mod wedi dechrau'r gweithgareddau dysgu ar y dyddiadau a gymeradwywyd. Rwyf hefyd yn cadarnhau nad wyf yn ymwybodol o unrhyw faterion a fydd yn fy rhwystro rhag cwblhau'r rhaglen.